



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD (CRYNO)
ar gyfer aelodau a buddiolwyr
Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg**

Fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, mae gennym wybodaeth amdanoch ("data personol") y mae arnom ei hangen i weinyddu'r Gronfa.

Rydym wedi crynhoi rhai o'n prif ffyrdd o drin yr wybodaeth hon isod. Mae rhagor o wybodaeth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd Llawn sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

www.caerdydd.gov.uk/pensiynau

Pa ddata personol sydd gennym?

Fel arfer, mae'r mathau o ddata sydd gennym ac a broseswn yn cynnwys:

- Manylion cyswllt yn cynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost.
- Manylion adnabod yn cynnwys dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol.
- Gwybodaeth yn gysylltiedig â'ch buddion yn y Gronfa, yn cynnwys hyd eich gwasanaeth neu aelodaeth a'ch cyflog.
- Gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth â'r Gronfa neu sy'n galluogi cyfrifo neu dalu buddion, er enghraifft manylion cyfrif banc.
- Gwybodaeth am eich teulu, pobl sy'n ddibynol arnoch neu eich amgylchiadau personol er enghraifft eich statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu buddion sy'n daladwy wedi marwolaeth.
- Gwybodaeth am eich iechyd, er enghraifft er mwyn asesu cymhwysedd ar gyfer buddion sy'n daladwy petaech mewn iechyd gwael neu petai eich iechyd yn berthnasol i hawliad ar fuddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r Gronfa.
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol os yw hyn wedi arwain at ddyled ar eich rhan i'ch cyflogwr neu i'r Gronfa ac mae modd ad-dalu'r cyflogwr neu'r Gronfa o'ch buddion.

Cawn beth o'r data personol hwn yn uniongyrchol gennych chi. Cawn hefyd ddata gan eich cyflogwr (er enghraifft gwybodaeth am gyflog) ac o ffynonellau eraill yn cynnwys cronfeydd data cyhoeddus.

Beth a wnawn â'ch data personol?

Defnyddiwn y data personol hwn i weinyddu'r Gronfa ac i gyfrifo a rhoi eich buddion i chi (ac os ydych yn aelod o'r Gronfa, i'ch buddiolwyr ar eich marwolaeth). Defnyddiwn y data personol hwn at ddibenion ystadegol a modelu ariannol ac at ddibenion cyfeirio (er enghraifft, pan aseswn faint o arian mae ei angen i dalu buddion i aelodau a faint o'r arian hwn y dylid ei fuddsoddi) ac i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol arnom.

O bryd i'w gilydd rhannwn eich data personol â thrydydd parti, yn cynnwys ein contractwyr, cynghorwyr, cyrff y llywodraeth ac asiantaethau datrys anghydfod a gorfodi'r gyfraith ac yswirwyr, i gydymffurfio â'r gofynion sydd arnom yn ôl y gyfraith ac mewn cysylltiad â darparu

gwasanaethau sy'n ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau, hawliau a disgresiwn mewn perthynas â'r Gronfa. Ceir rhestr o'r sefydliadau hyn yn yr Hysbysiad Preifatrwydd llawn.

Mewn rhai achosion, gall y derbynwyr hyn fod y tu allan i'r DU. Os digwydd hyn, gwnawn yn siŵr bod camau diogelu mewn lle i ddiogelu eich data yn unol â'r cyfreithiau perthnasol. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod os ydych am gael rhagor o wybodaeth yn gysylltiedig â hyn.

Ar ba sail gyfreithiol byddwn yn defnyddio eich data personol?

Yn gyffredinol, ar un o'r seiliau cyfreithiol isod y byddwn yn defnyddio eich data personol:

- a) mae arnom angen prosesu eich data personol er mwyn cyflawni'r gofynion cyfreithiol sydd arnom fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa; ac
- b) mae arnom angen prosesu eich data personol i gwblhau tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol sydd gennym fel corff cyhoeddus; ac
- c) mae angen prosesu eich data personol arnom yn ddiffuant er mwyn gweinyddu a rheoli'r Gronfa a'n dyletswyddau cysylltiedig, cyfrifo, diogelu a thalu buddion a chyflawni'r gofynion sydd arnom a gweithredu unrhyw hawliau, dyletswydd a disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r Gronfa; ac
- d) oherwydd bod angen prosesu eich data personol arnom i gyflawni gofynion cytundebol sydd arnom mewn perthynas â'r Gronfa (er enghraifft, dan gytundeb sy'n nodi y byddwch yn talu cyfraniadau gwirfoddol i'r Gronfa) neu angen cymryd camau, ar gais gennych, cyn mynd i gontract.

Am ba hyd y cadwn eich data?

Byddwn ond yn cadw'ch data personol am 100 mlynedd o'ch dyddiad geni, neu gyn hired ag y bydd ei angen arnom i weinyddu'r Gronfa ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion y gallem eu derbyn am hyn, oni bai bod y gyfraith yn gofyn i ni ei gadw am gyfnod hwy. Yn ymarferol, golyga hyn y gallwn gadw eich data personol cyhyd ag y mae gennych chi (neu fuddiolwr sy'n derbyn buddion wedi eich marwolaeth) hawl ar fuddion gan y Gronfa, ac am gyfnod o Am yr un rheswm, mae'n bosibl bod angen cadw eich data personol os ydych chi wedi derbyn trosglwyddiad neu ad-daliad gan y Gronfa yn gysylltiedig â'ch hawl ar fuddion. Bydd angen i ni gadw data personol sydd gennym at ddibenion y Gronfa am gyfnodau hirach oherwydd natur hirdymor y dyletswyddau pensiwn. Fodd bynnag, cwtogwn y data a gadwn fel na chadwn eitemau unigol yn hirach na'r angen.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich data a chael copi o'r data personol sydd gennym amdanoch a gofyn i ni gywiro'r data os oes camgymeriadau neu wybodaeth sy'n hen. Mewn rhai amgylchiadau, cewch hefyd ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol tan wirir unrhyw gamgymeriadau, gwrthwynebu i ni brosesu neu drosglwyddo neu (mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn), ofyn i ni ddileu eich data personol. Gallwch gael wybodaeth bellach ynghylch yr hawliau hyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: www.ico.org.uk; neu drwy eu llinell gymorth (0303 123 1113).

Os ydych am ddefnyddio unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa isod: Mae gennych hefyd hawl i gofrestru cwyn yn gysylltiedig â'r hysbysiad cryno hwn, yr Hysbysiad Preifatrwydd llawn neu ein gweithgareddau prosesu gerbron Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gallwch wneud hynny trwy'r wefan uchod neu eu llinell gymorth.

Mae'n bosibl y gofynnwn am ragor o wybodaeth gennych o bryd i'w gilydd. Os na chyflwynwch yr wybodaeth honno neu os gofynnwch i ni ddileu neu gyfyngu ar ddata personol sydd gennym,

Fersiwn 1: dilys o 18 Ebrill 2018

gallai hyn effeithio ar y buddion sy'n daladwy i chi dan y Gronfa. Mewn rhai achosion, gallai olygu na allwn dalu eich pensiwn neu fod yn rhaid i ni atal eich pensiwn (os telir y pensiwn eisoes).

Cysylltu â ni

Cysylltwch â gweinyddwr y Gronfa, Cronfa Bensiwn Caerdydd Bro Morgannwg am ragor o wybodaeth.

Ffôn: 029 2087 2334

E-bost: Pensiynau@caerdydd.gov.uk

Neuadd Sir Caerdydd

Ystafell 252

Glanfa'r Iwerydd

Caerdydd

CF10 4UW

Swyddog Diogelu Data

Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, Katie England am ragor o wybodaeth: diogeludata@caerdydd.gov.uk.